

# Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol

## Hysbysiad Preifatrwydd

### Beth yw nod yr Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol?

Comisiynir NELA gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP) fel rhan o'r Rhaglen Archwiliadau Clinigol Cenedlaethol ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol (NELA) yn cael ei gynnal gan Ganolfan Ymchwil Gwasanaethau Iechyd y Sefydliad Cenedlaethol Anesthesia Academaidd (NIAA) ar ran Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion.

Nod NELA yw gwella ansawdd gofal i gleifion sy'n cael llawdriniaeth frys ar y coluddyn (laparotomi brys) trwy ddarparu gwybodaeth gymharol o ansawdd uchel a gesglir mewn ysbytai yng Nghymru a Lloegr sy'n ymgymryd â laparotomiau brys.

### Pa wybodaeth ydyn ni'n ei chasglu amdanoch chi a sut ydyn ni'n ei defnyddio?

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am y gofal y mae cleifion yn ei gael tra byddant yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am yr ymchwiliadau a'r driniaeth a gafwyd, faint o amser a gymerodd i wahanol rannau o'r driniaeth gael eu rhoi, ac a aeth claf i wely gofal critigol ar ôl llawdriniaeth. Y wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei chasglu yw enw, dyddiad geni, rhif GIG, cod post a rhyw.

Mae data cleifion NELA yn cael ei gyflwyno'n uniongyrchol i NELA gan dimau clinigol sy'n trin y claf neu o gofnodion yr ysbyty.

Ni fydd NELA yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n galluogi adnabod cleifion unigol.


Trwy gasglu a rhannu'r wybodaeth hon, gallwn dynnu sylw at feysydd lle mae ysbytai'n gwneud yn dda, a meysydd lle y gellir gwella ansawdd gofal i gleifion fel y gallant roi cynlluniau ar waith i gyflawni hyn. Bydd hefyd yn caniatáu i ysbytai gymharu eu hunain ag eraill yng Nghymru a Lloegr a thrwy wneud hynny wella ansawdd gofal trwy rannu enghreifftiau o arfer da.

### Rheolwr Data

Fel cyllidwyr a chomisiynwyr NELA, NHS England a [HQIP](#) yw cyd-reolwyr y data am gleifion a gyflwynir i'r archwiliad, h.y. dyma'r sefydliadau sy'n rheoli prosesu'r data.

### Sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

O dan GDPR mae'r seiliau cyfreithiol canlynol yn berthnasol: mae angen prosesu ar gyfer cyflawni tasg a wneir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolwr (Erthygl 6 (1) (e)) ac (Erthygl 9 (2) (i)) mae angen prosesu am resymau budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd, megis gwarchod rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau



meddygol, ar sail cyfraith yr Undeb neu Aelod-wladwriaeth sy'n darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a rhyddid gwrthrych y data, yn benodol cyfrinachedd proffesiynol. O dan Ddyletswydd Cyfrinachedd Cyfraith Gwlad (y Ddyletswydd), mae NELA yn defnyddio Adran 251 fel ei sail gyfreithiol i gydymffurfio â gofynion y Ddyletswydd.

Ar hyn o bryd mae gan NELA gymeradwyaeth o dan Adran 251 i gasglu data ar lefel cleifion (cyfeirnod: CAG 5-07 (d) / 2013) ar gyfer pob claf laparotomi brys sy'n cael ei dderbyn i'r ysbyty.

Mae rhagor o wybodaeth am adran 251 ar gael yma: <http://www.hra.nhs.uk/about-the-hra/ourcommittees/section-251/what-is-section-251/>.

Y sail resymegol dros hyn yw bod nifer fawr o gleifion laparotomi brys yn wael iawn cyn ac ar ôl cael laparotomi brys, ac felly ni fyddai'n ymarferol gofyn i bob claf am eu caniatâd.

### **Sut rydyn ni'n diogelu eich data**

Mae Coleg Brenhinol yr Anesthetyddion yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Er mwyn rhwystro mynediad neu ddatgeliad diawdurdod, rydym wedi sefydlu gweithdrefnau corfforol, electronig a rheolaethol addas i warchod a diogelu'r wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu ar-lein.

Mae timau clinigol lleol yn cofnodi data cleifion ar adnodd diogel ar y we a ddarperir gan [Netsolving Ltd](#). Dim ond yr ysbytai sy'n cymryd rhan trwy'r meddygon, y nyrsys a staff yr archwiliad clinigol, a thîm prosiect NELA fydd â mynediad at yr adnodd ar y we. Mae diogelwch a chyfrinachedd yn cael eu cynnal trwy ddefnyddio cyfrineiriau a phroses gofrestru sy'n benodol i'r unigolyn.

### **Cyfrinachedd cleifion a lefel y data sy'n cael ei gasglu**

Mae'r wybodaeth am gleifion sy'n cael ei chasglu a'i rheoli gan dîm NELA yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Dim ond mewn fformat dienw y mae'r wybodaeth ar gael i dîm NELA, a defnyddir dilyniant o rifau a gynhyrchir gan gyfrifiadur i wahaniaethu rhwng cleifion unigol. Bydd y data hwn yn cael ei gadw trwy gydol cyfnod yr archwiliad ac am 5 mlynedd ar ôl ei gwblhau.


Rydym yn cynnal cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth am gleifion fel a ganlyn:

- Cynhyrchir pob adroddiad ar lefel gyfanredol (cenedlaethol, rhanbarthol, ysbyty).
- Ymhob cyhoeddiad yn ymwneud â'r archwiliad, adolygir y wybodaeth ystadegol i sicrhau bod y risg o adnabod unigolion yn cael ei lleihau, a lle bo angen, mae niferoedd bach yn cael eu cuddio. Mae'r asesiad hwn yn dilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan [Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - Review of the Dissemination of Health Statistics: Confidentiality Guidance \(PDF\)](#) (Adolygiad o Ledaenu Ystadegau Iechyd: Canllawiau Cyfrinachedd).

### **Rheoli data cleifion gan dîm NELA**

Mae tîm NELA wedi'u lleoli yng Ngholeg Brenhinol yr Anesthetyddion (RCoA) a Choleg Brenhinol Llawfeddygon Lloegr (RCS). Mae'r RCoA a'r RCS yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion, ac mae ganddynt fesurau diogelwch llym ar waith i ddiogelu gwybodaeth am gleifion. Mae NELA yn cadw'r data dienw am gleifion ar gyfrifiadur diogel gyda mynediad i aelodau'r tîm archwilio awdurdodedig yn unig. Mae nifer o lefelau diogelwch wedi'u hymgorffori yn y system TG, gan gynnwys:

- Diogelwch cyfrineiriau adnabod: mae'r data'n cael ei storio ar system sy'n cael ei diogelu gan gyfrineiriau, sy'n rhwystro defnyddwyr heb awdurdod rhag cael mynediad.



- Mae'r ffeiliau data sydd wedi'u storio wedi'u hamgryptio.

### Â phwy rydyn ni'n rhannu data

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) dim ond yn unol â gweithdrefn lywodraethu drylwyr y bydd NELA yn rhannu data cleifion.

Mae gan NELA ganiatâd i gysylltu data cleifion â chronfeydd data cenedlaethol eraill fesul achos. Mae gan NELA Gytundeb Rhannu Data cyfredol gyda

- NHS Digital ar gyfer data ysbytai Lloegr (Ystadegau Cyfnodau Ysbytai)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar gyfer y gofrestr marwolaethau
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) ar gyfer data ysbytai Cymru (Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru (PEDW))
- Canolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys (ICNARC) ar gyfer data gofal critigol

Mae cysylltu â data HES (Ystadegau Cyfnodau Ysbytai) yn galluogi NELA i gymharu nifer y cofnodion a gyflwynir i NELA â'r nifer a gofnodir yn ôl-weithredol yn ystadegau HES i sicrhau data o ansawdd uchel. Mae'r cysylltiad hwn hefyd yn galluogi dadansoddi'r cysylltiadau rhwng y rhai sy'n cael laparotomiau brys a chyflyrau meddygol eraill. Mae cysylltu â data ONS yn caniatáu i NELA adrodd ar gyfraddau marwolaethau yn ystod y 30 diwrnod cyntaf ar ôl i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty. Mae cysylltu â data PEDW yn galluogi NELA i gymharu nifer y cofnodion a gyflwynir i NELA â'r nifer a gofnodir yn ôl-weithredol yng nghronfa ddata PEDW i sicrhau data o ansawdd uchel. Mae cysylltu data NELA â data ICNARC yn caniatáu dadansoddiad tymor hwy o ddata gofal critigol.


Gall ymchwilwyr wneud cais i Reolwr Data NELA (y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd, HQIP), am fynediad at ddata NELA. Mae'r ceisiadau hyn yn mynd trwy broses gymeradwyo drylwyr fel yr amlinellir [yma](#).

### Beth os nad ydych chi'n dymuno i'r Archwiliad ddefnyddio gwybodaeth amdana i?

Fel claf, gallwch ddewis cael eich eithrio o NELA. Ni fydd ymeithrio o'r archwiliad yn effeithio ar y gofal a roddir i glaf. E-bostiwch [info@nela.org.uk](mailto:info@nela.org.uk) a rhowch "Cais claf i ymeithrio o'r archwiliad" yn y llinell pwnc. Byddwn wedyn yn cysylltu â'r ysbyty i sicrhau na fydd eich manylion yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad. Fel arall, rhowch wybod i aelod o'ch tîm gofal lleol eich bod am ymeithrio o'r archwiliad.

Os bydd eich manylion eisoes wedi'u cofnodi yng nghronfa ddata NELA, efallai y bydd eich hawliau i gyrchu, newid neu ddileu eich gwybodaeth yn fwy cyfyngedig. Mae hyn oherwydd bod rhaid i ni ddefnyddio dulliau penodol i reoli'ch gwybodaeth er mwyn sicrhau bod ymchwil ac adroddiadau yn ddibynadwy ac yn gywir. Os na fydd eich data wedi cael ei ddefnyddio'n barod at ddiben dadansoddi, bydd yn cael ei dynnu o gronfa ddata NELA. Os bydd eich data eisoes wedi cael ei ddefnyddio at ddiben dadansoddi, ni fyddwn yn gallu dileu gwybodaeth amdanoch chi rydyn ni eisoes wedi'i chael a'i defnyddio. Er mwyn diogelu eich hawliau, byddwn yn defnyddio cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol adnabyddadwy.

Os yw'n well gennych, gallwch hefyd ffonio Llinell Gymorth NELA ar 020 7092 1683.



### **Newidiadau i'n polisi preifatrwydd**

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a byddwn bob amser yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf ar y dudalen we hon.

### **Â phwy alla i gysylltu ynghylch yr hysbysiad hwn?**

Mae gan RCoA Swyddog Diogelu Data - Mr Ian Drayton - a fydd yn gallu eich helpu ag unrhyw ymholiadau am y wybodaeth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn: [dpo@rcoa.ac.uk](mailto:dpo@rcoa.ac.uk)

Mae gennych chi hefyd yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), awdurdod goruchwyllo'r DU sydd â chyfrifoldeb dros weithredu a gorfodi cyfraith diogelu data, os oes gennych bryderon ynghylch sut mae eich data personol yn cael ei drin. Gallwch gysylltu â'r ICO trwy eu gwefan - <https://ico.org.uk/concerns/> neu trwy ffonio eu llinell gymorth - 0303 123 1113.

*Diweddarwyd y polisi preifatrwydd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2021*